


Ynys Dinas

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER/HYD: 7.0 milltir (11.3 km) 3 awr 30 munud
Shorter circuit of Dinas Head 3.0 milltir (5.0 km) 1 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Dinas 412,
*Poppit Rocket 405 (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Arfordir garw, ymyl clogwyni, lonydd, 1 km o gerdded ar isffyrdd

CHWILIWCH AM: Golygfeydd • clogwyni uchel at Ben Dinas

ALLWEDD

- ● ● ● Llwyr Cylch
- — — — Llwyr Arfordir Sir Benfro
Llwyr Cenedlaethol
- — — — Llwyr Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toiledau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiu



Ynys Dinas

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr 30 munud.

Pellter: 7.0 milltir (11.3 km)
Shorter circuit of Dinas Head 3.0 milltir 5.0 km

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Dinas 412, *Poppit Rocket 405 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SN005405

Fe welwch chi brawf o bŵer tywydd Sir Benfro yng Nghwm-yr-Eglwys, dinistriwyd yr eglwys yno yn storm fawr 1859.

Cymeriad: Arfordir garw, ymyl clogwyni, lonydd, 1 km o gerdded ar isffyrdd.



Taith hudol ar hyd ynys - sydd ddim yn ynys....

Chwiliwch am: Golygfeydd, clogwyni uchel at Ben Dinas.

Nid ynys yw Ynys Dinas o gwbl, ond penrhyn sy'n rhydd, mewn mannau, o'r prif dir. Fe'i ffurfiwyd gan yr un dŵr tawdd o'r Oes Iâ a ffurfiodd Gwm Gwaun ymhellach i lawr yr arfordir. Mae Dinas yn enwog ar arfordir Gorllewin Cymru am ei adar, gyda'r gigfran, y fran goesgoch a'r ysgadan, a'r gwyllanod mawr a'r gwyllanod bach cefnddu i'w gweld yn y Gaeaf. Yn yr Haf, mae gweilch y penwaig, gwyllod, gwyllanod y graig a'r fulfran werdd yn bridio ar y clogwyni (mae yna le da i wyllo yn edrych allan dros Needle Rock). I ffwrdd oddi wrth y clogwyni fe allwch weld crec penddu'r eithin a theloriaid. Mae yna olygfeydd anhygoel allan i Draeth Trefdraeth i'r gogledd a thua'r tir i Fynyddoedd y Preseli.

Fel arfer, mae yna sioe o blanhigion ar y clogwyn noeth gydag eithin, rhedyn a mieri, coed prysg y ddraenen wen, y ddraenen ddu a chyll, a choed deri ac onn bach ble mae yna gysgod rhag y gwynt. Fe ddewch chi ar draws llawer o flodau gwyllt arfordirol fel grug, clafrllys teim, clustog Fair, bogail y forwyn, bysedd y cŵn, a thegeirianau. Mae clychau'r gog yn blodeuo yn y Gwanwyn ar y llethrau dwyreiniol.